

Cynnal a Chadw Tanau Tanwydd Solet



I sicrhau eich diogelwch a'ch lles chi a'ch teulu a phawb sy'n ymweld â'ch cartref, mae'n hanfodol fod tanau tanwydd solet yn cael eu cynnal a'u cadw'n rheolaidd.

A ydych yn un o denantiaid tai Cyngor Sir Caerfyrddin?

Rydym yn cynnal a chadw pob stof/lle tân glo yn gyson. Mae hyn yn cynnwys glanhau'r simnai ac archwilio'r tân a gofalu ei fod yn gweithio'n iawn.

Mae'n gwbl hanfodol eich bod yn caniatáu i'n staff ac i contractwyr cymeradwy ddod i'ch cartref i wneud gwaith cynnal a chadw o'r fath. Os na chaniatewch inni ddod i'ch cartref, efallai na fyddwn yn gwybod am ddiffygion a allai fod yn beryglus neu am ofynion cynnal a chadw.

Byddwn yn trefnu apwyntiad er mwyn inni allu galw ar adeg sy'n gyfleus i chi. A fydddech cystal â gofalu eich bod gartref i adael i'n gweithwyr ddod i'ch cartref ar y dyddiad a'r amser a drefnwyd ymlaen llaw. Os oes angen ichi aildrefnu'r apwyntiad, rhowch wybod inni gymaint ymlaen llaw ag y bo modd.

P'un a ydych yn denant i'r Cyngor, neu'n berchen ar eich cartref, os oes gennych dân sy'n defnyddio tanwydd solet, mae'n hanfodol eich bod yn:

- ✓ Glanhau gyddfblat a fflw'r boeler bob 14 diwrnod
- ✓ Eu glanhau ar ôl glaw trwm a gwyntoedd cryfion (gan y gallai huddygl a llwch ddisgyn a blocio'r gyddfblat)

Os ydych yn denant i'r Cyngor ac yn ei chael yn anodd glanhau'r gyddfblat neu os oes angen cyngor arnoch, ffoniwch ein Hadain Cynnal a Chadw – 01267 234567.

Sut mae defnyddio eich tân yn ddiogel

- ✓ Cofiwch wneud yn sicr fod y gyddfblat yn lân 24 awr ar ôl i'r simnai gael ei glanhau. Gwiriwch hyn eto ar ôl wythnos
- ✓ Tynnwch y gyddfblat oddi yno a/neu ei ostwng a'i lanhau pryd bynnag y byddwch yn cynnal tân newydd, er mwyn cael gwared ar y lludw a'r gweddillion

- ✓ Cofiwch archwilio a gwacáu'r blwch lludw o leiaf unwaith y dydd. Peidiwch â gadael i'r lludw gronni
- ✓ Defnyddiwch y tanwydd cywir a argymhellir gan eich gwerthwr tanwydd a gwneuthurwr y stof
- ✓ Os ydych yn llosgi coed, gofalgwch eu bod wedi cael digon o amser i sychu'n iawn ac nad oes llawer o resin ynddynt h.y. peidiwch â defnyddio pren cedrwydd/pinwydd a pheidiwch byth â llosgi pren sydd wedi'i baentio neu'i farnio gan y bydd yn difrodi'r ffliw
- ✓ Dilynwch gyfarwyddiadau'r gwneuthurwyr ynghylch defnyddio, cynnal a chadw a glanhau'r stof
- ✗ Peidiwch byth â defnyddio eich tân i losgi sbwriel y cartref
- ✗ Peidiwch â gorchuddio basged y grât yn llwyr wrth osod y glo arni gan y gallai hyn achosi problemau o ran y llosgi
- ✗ Peidiwch â chau'r fentiau awyru yn yr ystafell – mae angen awyr iach ar y tân i losgi'n ddiogel
- ✗ Peidiwch â gadael tân agored heb roi sgrin o'i amgylch



OS BYDDWCH YN AROGLEUO STEIFF/NWY...

Os byddwch yn arogleuo steiff/nwy neu'n teimlo fel petaech ar fin llewygu ac os ydych wedi dechrau cael pen tost, gall hyn fod oherwydd bod nwy **CARBON MONOCSID** yn yr aer a gall y nwy hwn fod yn angheuol.

- **Ewch allan o'r ystafell cyn gynted ag y gallwch** – peidiwch ag aros yn yr ystafell yn hwy nag sy'n rhaid
- Agorwch bob drws a phob ffenestr
- Gadewch i'r tân losgi'n ulw – peidiwch â'i ailgynnau
- Ffoniwch 999 i gael help

Os ydych yn denant i'r Cyngor ac os oes arnoch angen cael gwaith atgyweirio ar frys, ffoniwch 0800 0851 233

COFIWCH – MAE CARBON MONOCSID YN LLADD!

Peidiwch ag oedi... mae rhoi gwasanaeth i'ch offer yn rheolaidd yn achub bywydau!

Cynhyrchwyd gan Is-adran Gwasanaethau Eiddo Cyngor Sir Caerfyrddin

